A buaned y rhedy
Yr awr hon dros y fron fry.

(1) Ce poète est le plus brillant du moyen âge gallois, et peut-être le plus remarquable de l'Europe entière, à cette époque, par la variété et la fantaisie de l'imagination, le pittoresque de l'expression et l'éclat des images. Il est regrettable qu'il n'existe aucune bonne édition de ses œuvres. S'il est de la fin du quatorzième siècle, il appartient à l'école qui a codifié la métrique, sans tomber dans les puérilités et les enfantillages qui l'ont gâtée.

Dywaid im, diwyd emyn,
Dy hynt ogleddwynt y glyn.
Och wr dos o Uwch Aeron
Yn glaer deg yn eglur don,
Ac erof fi nac eiriach,
Nag ofna er y Bwa Bach.
Cybudd gwyn, wenwyn weini,
Caeth yw'r wlad a'i maeth i mi.
Noethid twyn, cyd nithid dail,
Ni'th dditia neb ni'th atail,
Na llu rhugl na llaw rhaglaw,
Na llafn glas na llif na gwlaw.
Ni'th ladd mab mam o amhwyll,
Ni'th lysg tan, ni'th lesga twyll,
Ni boddi ni'th rybuddiwyd (1);
Nid âi yn glyn, diongl wyd.
Nid rhaid march buan danad
Neu bont ar aber na bad.
Ni'th ddeil swyddog na theulu
I'th ddydd, nithwydd blaenwydd blu.
Ni'th wyl drem i'th wal dramawr;
E'th glyw mil, nyth y gwlaw mawr,
Rhad Duw wyd ar hyd daear,
Rhuad blin doriad blaen dar,
Neitiwr wybr, natur ebrwydd,
Neitiwr gwiw dros naw tir gwydd,
Sych natur, creadur craff,
Serenawg wybr siwrnai gobraff,
Seuthydd ar foreuddydd fry,
Seithug eisingrug son gry (2);

(1) Lisez *rybuddwyd*.

(2) Pour *son-gryf* : *f* final n'était plus prononcé à la finale dans bien des cas, ou au moins pouvait ne pas l'être. Les deux prononciations, la littéraire et la populaire existaient.

Saer dryghin yn min y mor (1),
Drythyll fab ar draethell for
Hyawdl leidr hudol ydwyd,
Hauwr, dyludwr deil wyd!
Hoywddwr breiniwr, hyrddiwr bryn,
Hwyl brenwyllt heli bronwyn,
Hydoedd y bydd a hedy;
Hin y fron, bydd heno fry.
Gwae fi, pan roddais i serch
Gobrudd ar Forfudd f'eurferch,
Rhiain a'm gwnaeth yn gaethwlad!
Rhed fry rhod a thy ei thad (2),
Cur y ddor, par agori
Cyn y dydd i'm cenad i,
A chais ffordd ati, o chaid,
A chân lais fy uchenaid.
Dywaid o'r sugnau diwael,
Dywaid hyn i'm diwyd hael:
Er hyd yn y byd y bwyf,
Carodyn cywir ydwyf;
Ys gwae fy wyneb hebddi,
Os gwir nad anghywir hi.
Dos fry tua gwely Gwen,
Dos obry, dewis wybren,
Dos at Forfudd felen lwyd (3),
Debre'n iach, da wybren wyd.

(1) Prononcez *y min y mor*.

(2) Ici le vers est coupé en deux membres qui allitèrent séparément.

(3) Ici la *cynghanedd* serait irrégulière, d'après le Code du seizième siècle; en effet, la consonne avant la rime n'a pas de *répondante* dans le premier membre.

IOLO GOCH (Cywydd à Owen Glyndwr quand il disparut, vers 1404, p. 210. Cf. *Gorchest.*, p. 81).

Y Gwr hir ni'th gar Harri,
Adfyd aeth : a wyd fyw di?
Ag od wyd, a gwayw o dan
Dyred, dangos dy darian ;
O wlad, garw aergad eurgylch,
Rufain dwg eirf yn dy gylch ;
Dwg feddiant Pedr sant dan sel
Drwy iawnswydd Duw a'r insel.
Dyred o wlad y Dwyrain,
Darw mawr, a bwrw dyrau main.
Rhwydd i daw rheiddiau o dan
Rhagod ; pawb a'th anrhegan.
Dos, eryr glwys, dos o'r glyn,
Iarll owchlaif, i dir Llycblyn,
Y gwr a ddwg, arwydd iach (1),
Yn ei darian bedeir ach
Tri llew glas fal yr asur,
Trwy wyllt dan a'r tair rhwyll dur (2).
Rhown ni ar y paun diwarth (3),
Rhowch rwyf ar yr hwch a'r arth.
Llyna'r tair bwyall unyd,
Lle mae'r gwaith, llu mawr i gyd.
Gollwng yn gynta gellych
Saith long a saith gan llong gwych.

(1) Le *g* de *ddwg* est *dauwynebog* (à deux visages) : il termine le mot de la coupe et commence métriquement le second membre.

(2) Prononcez *wyllt tan* et *rhwyll tur.*

(3) *Cynghanedd* fautive ; texte pas sûr ; il y a une variante *rif* au lieu de *ni.*

Dyred wrth ddamuned Mon
O'r North hyd yn Iwerddon (1).
Rhaid yw i ti, rho Duw tad,
Gael Owtils a'u galw attad.
Cyfod glod o'r Galiod glan
Cawn glywed cyn gwyl Ieuan.
Dyro fflam, bennadur fflwch,
Draw'n Nulun drwy anialwch.
Gwna lynges gain o longwyr
O gynfyl Gwyddyl a'u gwyr.
Tyred wr a draeturwyd
O Fanaw dir : f'enaid wyd.
Gorau arwydd gan Wyddyl
Melyn a choch ymlaen chwyl.
Urdda bensel Llywelyn,
Arddel hwy a'r ddeuliw hyn.
Galw gar bron, gwae Loegr o'r brad,
Lu Brytaen a'i lwybr attad.
Dyre i'n gwlad, dur iawn gledd,
Deyrnaswr drwy ynysedd ;
Cynneu dan cyn oed unawr ;
I oror Mon, eryr mawr ;
Cur gestyll, caerau gystudd,
Cwncwer walau cwn Caerludd ;
Cur a lladd y wadd a'i wyr,
Cyrn aur Mon, cur Normanwyr.
Dir y gwnai, darogan oedd,
Fyd teilwng o fatteloedd.
Gwna frwydr a gwaith ar grwydr groch,
Aerllew Mon, Ior lle mynnoch.
Gwaith dy law a ddaw yn ddig,
Gwyr meirw a gair ym Merwig.

(1) Certains manuscrits ont *nordd*, ce qui va mieux pour la *cynghanedd*. C'est d'ailleurs le mot anglais.

Gwna drwy'r haf, gwn droi y rhod,
Gymmynu brwydr Gwminod;
Gwna gad, fal torriad deri,
Fochno, a hyn fych na hi;
Gwna'r daith yn rhyd Glyn Iaithon,
Gwyr lawer, a Maner Mon;
Gwna naw cad yn daladwy,
Yn un modd, ag na wna mwy.
Deigr Gadwaladr fendigaid,
Dyred a dwg dir dy daid;
Dyga rann dy gerennydd :
Dwg ni o'n rhwym dygn yn rhydd.

DAFYDD AB EDMWND (*Gorch.*, p. 117).

Bid hyder o'r byd hudol
Blîn ei gwrs rhwng blaen ag ôl,
Gwae ni Dduw gann na ddywaid
Gwenn i nêb pa gwyn a wnaid !
Y ddyn fwyn 'oedd ddoe'n f'annerch
Aeth yn fûd weithian y ferch;
A minnau heb law meinwen,
Ar y phordd heb air o'i phenn.
Udo'r wyf, mor fûd yr aeth,
Am y dyn o'i mudanaeth;
Collais o'i phenn bob cellwair,
Canwn gerdd pa cawn un gair;
Gwynedd ni phair ym genau,
Ganu dim os Gwenn a dau
Ni fynn fy nyn ofyn iaith,
Nid ery newid araith;
Cyfarch well, nis cyfarch hi
Caf ferch hawdd cyfarch iddi :
Nôs da yw'ch ferch nis dichon,

Nôs da itt, nis dywaid (1) honn.
Parabl mewn mwnwgl purwyn,
Pa ryw haint sy'n peri hyn?
Iesu nawd os anudon,
Yw lleshâu i allu son?
Ag os dîg (2) a'i gostegodd,
A fynn bun ofyn ei bodd.
Mae y nyn a mi'n uniaith,
Ag ni chwyf ei genau chwaith :
Od ydyw yn dawedog.
Is y chwardd eos a chog.
Gwae ni fod y gwyn a fu,
Gwenn Einion heb gynanu!
O deffry aed (3) i offrwm,
Yr hynn a'i tro o'r haint trwm.
Llun ei genau'n Llann Gynin
Llysiau Mair er lleisio'i min;
Llûn i Fair fy lleian fwyn,
Lleferydd ei llaw forwynn.
Y ferch nid attebai fi
A ddywaid yn nhy Ddewi;
Aed i Fynyw bid fwynach,
Ag (4) yno Nonn a'i gwna'n iach.
Gwared a gaffo gwirion,
Gwylio saint y gwelais honn.
Dyro Grist er Duw ar Grôg,
Dy fudes yn dafodiog
I summud ferch os mûd fydd,
Yn ddifud wenn i Ddafydd.

(1) Texte *i ti : t'* est en rapport exact avec *t* = *dh*, *dywaid honn.*

(2) Prononcez *os tig.*

(3) *D* de *aed* est *Dauwynebog.*

(4) Ecrit *ac.*

Gorch., p. 147. DAFYDD NANMOR (à Rhys o'r Tywyn).

Rhys orau 'nhir Is Aeron,
Ar ei fwrdd o Ddofr i Fon;
Gorau perchen a'r wên wiw
Ty o Adda hyd (1) heddyw :
Ty fal ysbytty Ieuan,
Fu ei dai o fwyd i wann;
I'r tai ynghwrr y tywyn,
Fo a ddaw sy fyw o ddyn :
Pair rannu er nas prynan
Bwyd i'r byd o bedwar bann;
Fe borthai yn ei dai da,
Wledd Rys luoedd yr Asia;
Yn hon y dichon yn hawdd,
Badrieirch bod ar wahawdd
Fe a borthes yr Iesu
A llai o wledd ei holl lu.
Y wledd a gad yn adail,
Lleon ar wysg llyn a'r ail;
Arall a wnaeth Caswallawn,
Yn Nhre Ludd, yn reiol iawn,
Ugain mil o fwystfiledd,
Yn farw o las pan fu'r wledd;
Mwy'r wyl nag yn y ddwylys,
O gig rhost, gann gogau Rhys,
Tryma hyd y mae tremynt,
Tri eu gwaith hyd y try gwynt;
Pobydd a cherfydd a chog,
A droes iddo'n dri swyddog;
A'i fwtler yw'r pedwerydd,

(1) Prononcez *t*.

Mwya'i dasg hyd y mae dydd,
Yn dwyn ni bu newid well
Gwin at hwn o gann tunnell,
Od oes heidiau isel,
Naw cann myrdd yn cywain mel?
Ei ddwyn y mae'r ddwy ynys,
Is law'r allt i seler Rys.
Ar bob allawr yr awran,
Y gwneir côst o'r gwin a'r cann;
Ei fwrdd tâl a ddyfalwyd
Allor fawr llawer o fwyd.
Y Cymmro roddo ar ol,
Aur na bwyd er enw bydol;
Medd Garmon digon a dâl,
A bair Duw heb roi dial.
Pe bai gann mil, yn ddilys
O erydr rhif ar dir Rhys;
A thrichan gwinllan a gwin,
Ag yn malu gann melyn;
Pe bai'r ddaear yn fara,
Neu flas dwr fal osai da
Yn y wledd rhyfedd barhau,
Dwr a daear dri diau!
Pan fo'rtri llu'n dygnûaw,
Ar drom farn olifer draw;
Y telîr er nas talwyd
I Rys faint a roes o fwyd

Gorch., p. 249. Marwnad Dafydd ab Edmwnd (Tudur Aled).

Llaw Dduw a fu'n lladd awen,
Lladd enaid holl ddwned hen;
Saer nid oes eisiau'r un dyn
Ar goed awdl na'r gwawdodyn;

Un nis cân yn îs Conwy,
Wedi myn'd mab Edmwnd mwy.
Bwrw brawdwr y gerddwriaeth
Beth a wyr neb eittr un aeth?
Bwrw Dafydd gelfydd dann gôr,
Bwrw ddoe'n un meistr bardd Nanmor,
Bwrw Deulwyn y brawd olaf,
Blodau cerdd, ba wlad y câf?
Tair awen oedd i'r trywyr
A fai les i fil o wyr;
Gweddw fu'r allt a gwydd y fronn
Gwarchae ustus gorchestion;
Gwael fu wydd, y gelfyddyd,
Gwedi'r gerdd gadair i gyd.
Cri aml sy'n y côr yma,
Cwyno dwyn y canu da;
Cell a dadl, colled ydoedd,
Cyfryw ddyn, cyfarwydd oedd;
Canu oedd well cynn ei ddwyn;
Clymu gwawd cwlm y gadwyn;
Canu fyth y cawn y fo,
Ag iawn oedd ganu iddo.
Gwae fi unig f'awenydd,
O aros awr er y sydd!
F'ewythr o waed, f'athro oedd,
Fynwes gwawd, fy nysg yd oedd;
Mae somm o'i eisiau yma
Methu'r dysg am athro da;
Mi a gollais fy'm gellwair,
A thrach gefn ddieithrwch gair.
Dafydd a wnai'r gerdd dafawd,
Dyrnod gwnn drwy enaid gwawd!
Dwyn diben dewin deubeth,
Da fu'i air nid â i feth.
Doe bwriodd haint y bardd hen,

Dwrn Dëau dyrnod awen;
Dy frawd tad ei frut yd oedd (1),
Iaith gymraeg a'th gymmar oedd;
Ei ddwned oedd o'i enau,
Ag ir oedd frig y gerdd frau
Praffa dadl prophwyd ydoedd;
Penllâd ar bob pennill oedd;
Pe doi orchest ne gwestiwn,
Ple'i rhoir wedi'r piler hwnn?
Pennod myfyrdod am farn
Pe'mrig awdl, pwy mor gadarn?
Adda Frâs oedd ef ar wawd,
Awn i'w godi'n un giwdawd:
Ni bu fyw neb fwy'i awen,
Ond da (2) fardd glann Teifi wenn,
Mab Gwilym heb gywely,
Heb iddo frawd ni bydd fry.
Yn ei fedd awen a fu,
Awen tafod yn tyfu
Dafydd ar gywydd fu'r gwaith,
Ag a ddêl o'r gwydd eilwaith;
Dyn a dyf dann ei dafawd,
Egin gwydd am ganu gwawd;
Impio sbyrs, gwmpas y bedd,
Ar ganghennau'r gynghanedd.
I'r oedd lwyn irddail ynys,
Awen a'i gwraidd, yn ei grys;
Cyhyd ag oedd y coed gynt
O benn adda bann oeddynt.
Athro oedd ef, uthr ei ddull,
Athronddysg athro henddull.
Fe ddarfu'r canu cenym,

(1) *D*, *t* = *t* (*dy frawt tâd*).
(2) *Onta* allitère avec (gla)*nn* *Teifi*.

Fe aeth y brut fyth heb rym!
Neb ni chan o benn y chwaith.
Wedi 'i farw wawd oferwaith;
Gweddw yw'r gerdd y gwydd a'r gôg,
Gwedi awdur godidog!
Gwnai fydr am gae neu fodrwy,
Ag ni wyl merch a'i gwnel mwy.
Anfoned o nef annerch,
O radau Mair ar wawd merch;
Gwneled Fair o'i gwen wlad fydd
Roi Paradwys i'r prydydd.

Lewis Glyn Cothi, p. 389. (Aux Saxons de Flint.)

Daethym ddywsul diwethav
(Dyn wyv a luniodd Duw Nav)
I dre ddwbl gaer gwbl gwyrgam,
Y Flint a welwyv yn flam;
Lle'r oedd neithiawr (heb vawr vedd)
Sais aneglur, seisnig wledd.
Ar oddeu cael yr oeddwn
Herwydd creft hoewrodd crwn.
Dechreuais, frystais yn fraeth,
Ganu awdl i'r genedlaeth.
Gwatwaru, llysu vy llais;
Govid yno a gevais.
Hawdd gan borthmyn haidd ac yd
Vaddau vy holl gelvyddyd;
Ac am vyngherdd y chwerddyn'
Parod gan hawl, prid geny' hyn.
Sôn am bys Wiliam Beisir,
Sôn o'r ail am dail i'w dîr;
Galw i'r vainc, gwaelwr a vydd,
O bawb am Wiliam bibydd;
Dyvod o hwn, devawd hawl,

Ger bron, nid val gwr breiniawl,
A chôd lleddv val perveddvaich,
Wrth fôn, rhwng ei vron a'i vraich.
Hyllu, synndynnu, swn dwg;
Rhwth gaul a rhythu golwg;
A throi oi gorf yma a thraw;
A chwyddo'r ddwyvoch eiddaw;
Chwerw voes! chware â'i vysedd.
A chroen glwth i chwerwon gwledd:
Yn mysg rhwtian 'mysg rhawter,
Tynu ei glôg val tin y glêr;
Froeniaw bu; frwynaw a'i ben
Ydd yd oedd at ei ddiden.
Ail sud i varcud yw vo,
Abl awydd i bluo (1);
Chwythu o'r cranc, chwith yw'r cri,
Chwyddo'r gôd a chroch weiddi;
Gwaedd hunlle'n lladd gwydd henllom
Gwaedd gast drist greg dan gist grom;
Gerwingest i grîo ungerdd
Gwythi ceg yn gwthiaw cerdd.
Llais garan yn llaes gery,
Gwydd o vrat yn gwaeddi vry;
Gavr yw un llais gyvran llôg,
Glwyvus aviachus veichiog.
Gwedi darvod, gwawd oerverch,
Gwichlais hon gochelai serch
Cael fis o Wiliam, cael fa;
Lardies nid o law wrda;
Ceiniogau lle'u cynnygian',
Ac weithiau'r dimeiau mân;
A'm gollwng yn drablwng draw
O'r goegwledd yn wr gwaglaw.

(1) Texte incorrect.

O ddivriv rhov ddïovryd
I Flint gaeth a'i phlant i gyd;
Ei fwrn vaith val ufern vydd,
A'i phobl seisnig a'i phibydd;
Vy holl weddi vo'u lladdiant,
Vy melltith i'w phlith a'u phlant;
Diau ym oes od âv mwy,
Iddi eilwaith na ddelwy'.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 293).

Y bardd bach uwch beirdd y byd,
Och! nad ydych yn d'wedyd!
Gryffydd braff, graffaidd brophwyd,
Gweddw yw'r iaith : a'i 'mguddio'r wyd?
Ba dir hwnt o bait y rhawg,
Bwrdd yr iaith, bardd Hiraethawg;
Dewi'r beirdd, nid o air bost,
Dyblwr iaith, Duw, ble'r aethost?
Os i ryw daith, drudfaith dro,
Ond hir yr wyd yn tario?
O Duw deg, od ydwyd iach
Ddiball, p'am na ddoi bellach?
Os claf brophwyd braf ei bryd,
Claf yw addysg celfyddyd.
Od aethost i le dethol
Y gwawd a'r dysg aed ar d'ôl.
Hiraethog ddoeth, o doeth d'oes,
Hiraethog fydd rhai wythoes!
Ni welais gam o'th dramwy
Er ys mis nag er ys mwy;
Gelwais arnad gloes oerni,
Och Fair na attebych fi!

Y Marw yn atteb :

Ni ad ty (1) bedd atteb ym'
Am rann iaith marw a wnaethym
Ti a'm gwelaist ym golud,
Ddoe yn falch a heddyw'n fud ;
A'r pwyll, a'r synwyr a'r penn,
A'r cellwair ynghôr collen
A gro'r llawr, îs goror llann
Osodwyd, lle bu sidan.

Y byw yn atteb :

Tyred yma, torr d'ammod,
Drwy dorr y clai, daradr clod :
Ymrwymaist fardd, brau hardd bris
Yr wyl, a'r doctor Elis.
Od ydoedd i'th fryd adael
Y gwr hwn a ddug air hael?
Ond oedd dost diwedd y daith,
Na chanid yn iach unwaith?

Y marw yn atteb :

Nid oedd modd yn y dydd mau
Y dringodd rhyw daer angau ;
Mewn gwarchae'r mann a gyrcho
Eryr gwyllt ar warr gelltydd
Nid ymgel pann ddel ei ddydd ;
A'r pysg sydd ymysg y mor
A ddwg angau'n ddigyngor ;

(1) *Ad ty* : prononcez *at ty*.

Y byd oll be deallwn,
A'r y sydd a erys hwn.
Aristotlus fedrus fu
A'r ddysg oll urddas gallu;
Tydain ail tâd awen oedd,
Taliesin teulu oesoedd,
Pob un aeth, mae pawb yn wâr
Ar ei ddiwedd i'r ddaear;
Minnau nid oes ym annedd
O'r byd ond fy byd o'r bedd.

Y byw yn atteb :

F'athro Gryffydd, o'th guddiwyd
Mewn arch oer di'mannerch wyd;
Gorwedd ir wyd mewn gweryd,
Gryf wraidd benn digrifrwydd byd
Ond irad myn'd i orwedd,
Awen y byd yn un bedd!
Gwiail a gad, tyfiad da,
Yn wydd o enau Adda;
Doeth fardd, felly daw o'th fedd
Ganghennau'r groes gynghanedd.
Yn iach yn d'ôl, ni chawn di
Ystyriaeth, chwedl na'stori;
Ni cheir marw, ni char morwyn,
Ni thy fyth gwmpniaeth fwyn
Och, gloi'r fedd iach gelfyddyd!
Och, roi barn ar achau'r byd!
Beth a dyf, byth o dafawd?
Blino ffrith gwydd, blaen ffrwyth gwawd;
Bwrw gwingoed, brîg awengerdd,
Braenu un cyff brenin cerdd,
A thy dadl fyth od ydyw,
Odid farn am nad wyd fyw.

Ba fyd ar gerdd seinwerdd sydd?
Byd traffol hebod, Ryffydd;
Daearwyd gwawd eur deg wedd,
Ni's daearwyd nes d'orwedd;
Duw a'th ddug ych bon gwych gwâr,
Is y cwmm eisiau cymmar.
Gwnn na bu er Gwion bach
Gau ar synwyr gresynach.
Llai cefaist, lleddaist ni'n llwyr,
Oes a henaint na synwyr.
Crist roes yt einioes ennyd
Crist a'th ddug bardd benn bardd byd;
Crist enw rhawg gras Duw i'n rhaid,
Ceidwad dyn cadwed d'enaid.

II

ENGLYN PROST CYFNEWIDIOG.

DAFYDD AB GWILYM (p. 327).

Gwae fi weled, trwydded drwg,
Neuaddau milwr twr teg,
Annawn oes, un yn ysig,
A'r llall do gwall, yn dy gwag.

Id., page 328.

Nid diofal ffurf dal ffer
I'r gelyn a wnel galar;
A laddo ddyn a'i loyw-ddur
I luddias hoedl, fo leddir.

DAFYDD AB EDMWND (*Gorch.*, p. 103).

Eurfab i Iôr erfai bwyth,
Aer Lywelyn aur lewlaith ;
Wyr Dudur yw'n mur a'n maeth,
Etifedd gynt Dafydd goeth (1)

Doethach, i'w y daethum,
Doethryw, ynad yw, na dim ;
Da agwrdd rudd, dihagr ddrem,
Dysg a roes dewis gwr ym'.

Id., p. 220, trois strophes terminées par des monosyllabes.

GUTTYN OWAIN (*Gorch.*, p. 189).

Cynhaliad ffrwyth pob gwythen,
Yw gair teg o gariad dyn (2) ;
Ar dy wefus a'th gusan,
Y mae oes hir ym y sôn.

Efa bryd fu i brydydd,
Annisyml wyf, nes ymladd ;
Cwyno ei boen, cyn y bedd,
Dduw 'ddwyf, pan ddioddefodd.

(1) **t** = **t**, **D** dans e**t**ifedd, gyn**t** **D**afydd.
(2) $D + d = t$.

LEWIS GLYN COTHI (p. 97).

O Wynedd y mae i'wch ennill,
O ddwy Went arvau'n un ddull,
Tri phen saeth a aeth uwch oll,
Tri phen blaidd un wraidd yn well.

Id., page 133.

Y mae i rhai'n hyd y môr hwnt
I'r cadben a'r Lutenont;
Mawr yw yn Nghymmru ei rent,
Mwy yw iddo y meddiant.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 266).

Nai syr Rys, neshâu yr wyd
I roi gwin ag o ryw gwaed;
A'th wraig o lwyth blaenffrwyth blaid
Aeres Gruffydd, gwinwydd goed.

Id., page 274.

Amryw enwog mawr winwydd,
A mawr enw am a rannodd!
A mawr iawn ymro Wynedd,
Am roi i weiniaid Meirionydd!

Pour le *prost cyfn. chwebann* et plus, v. p. 145, 164.

III

PROST CADWYNOG.

DAFYDD AB EDMWND (*Gorch.*, p. 107).

Rhys orau **mab rhys**wr **Mon**
Rhull waywlo**r**f **rhy**w **Llywelyn** ;
Rh**ydd** Dudur wyr **Ddafydd Ion**,
Rhwy**dd** Dd**a**fy**dd h**il **rhodd**fy**dd hyn**.

GUTTYN OWAIN (*Gorch.*, p. 201).

Y **fendith** drwy **gyfiawnder**
A **gafas** Nudd **ag Ifor**,
Ar **Ddafydd**, rif **sydd o ser**,
Ag a roir mwy na **gro'r mor**.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 259).

Mynd er g**wann i'n mwyndir goed**,
Mae yn dy law, **mynn Du**w **lwyd** ;
Minnau'n gl**â**f, **mynn**w**n gael oed**,
Mein**wen gorawen** g**wyr wyd**.

LEWIS GLYN COTHI (p. 424).

Y **byd aeth**, heb **wâd**, **weithian**,
Tanad Grufydd y **tynwn** ;
Trwy weywyr **trawai** Ieuan,
Tydi'n (1) ol **tad** anne**lwn**.

(1) Texte : *yn ol*.

Id., page 453.

Ei glog val rhyw varchog vydd
Yn aur a'i wn yn un radd,
Ar lyvr Dwned Maredydd
Wedi wisgo y dysgodd.

TUDUR ALED (*Ceinion*, I, p. 347).

Drwy Fablon yn afon wyllt
Dy waew i'n mysg yn dan mellt
Dod in' hwp, d'adain a hyllt
Dynflaidd wyt, yn fil o ddellt.

IV

CYHYDEDD FERR.

LEWYS GLYN COTHI (p. 256-257, douze strophes).

A phenadur du fynedig,
Am oludoedd canmoledig;
Ag o dewrder lys gadwedig;
Ag o Idwal oedd wisgedig.

Pob rhyw adar purpuredig
I'n a nodant yn enwedig;
Sy o vwydau yn savedig
A gai wawdydd vai dysgedig.

Yn vyw rydain yn vawredig,
Yn vawr eidion yn verwedig,

Yn veirw adar yn veredig
Yn vor adar yn vriwedig.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 260).

Dy liw eurvawr yw'n dolurion,
Doe i'th elwais o'r detholion;
Delw o'i mebyd a wyl meibion,
Delw wenn obry dwy lann Ebron.

V

CYHYDEDD NAWBANN.

LEWIS GLYN COTHI (p. 27) (1).

Mae y meistr mau mewn tyrau'r tad
Mwnai'n ei ogylch mwy no Newgad
Meirch a gweywyr onn yn mraich y gâd,
Mwy no rhiv y plwyw mewn arvau plâd.

Mae meistres Alis mewn twr caead
Mwnai a thrysor main a thrwsiad
Hi a wisg ddywllun ddamasc ddillad
Siamled o velved un ddyvaliad.

Ag (2) o arwedd aur uwch grudd a iad
Ag a wisg garlond ag ysgarlad,
Ag a eilw Iesu am oes gleisiad
A naw oes y dwg hono ystâd.

(1) Priodasgerdd i Rhobert Whitnei (Epithalame).
(2) Texte : *ac*, ainsi que dans les deux vers suivants.

Mastr Rhobert hael a eilw Elvael wlad,
Meistr yw yn rhoi ym ystôr yn rhad;
Mae'n Ustus cyviawn yma'n wastad,
Mae yn eiste ar swrn o'r mastr Siad.

Ni bo a brovo iddo ddim brad,
Ni bydd dragywydd achos, nis gad;
Tra llong ag angor ar vor neu vâd,
Tra vo lliw awyr tra vo lleuad.

Mae'n llys yr arglwydd, pawb a'i gwyddiad,
Hynsmen a Ywmen yn ddiymwad,
Cwrseriaid euraid yn gweryrad,
Cyrn bwa i ryvel, ceirw yn brevad.

Milgwn yn Whitnai, can' bytheiad,
Cynyddion ddigon yn ddiwygiad;
Ceginau Ystwyll, cogau'n wastad,
Bwtri, seleri, seiri'n siariad.

Ac o'r llys gwerin yn chwerthiniad,
Ag o'r twr canwr heb gael cenad,
Ag o'r wraig egin a llin benllad,
Ag o'r gwr eppil a hil a hâd.

VI

HUPUNT BYRR.

William Llyn (*Gorch.*, p. 262).

Ymhob ieithiau
O gur deithiau y gwyr doethion,
Ar bob llanerch
A gar d'annerch gwawr y dynion.

DAFYDD NANMOR (*Ceinion*, I, p. 164, douze syllabes).

Megaist ofn mil myrdd megis Dyfnwal Moelmud,
Mal awch awyr taran nawmil a chwarterud;
Miloedd ni'th arhoent mewn ymladd o tharawud,
Mwy na llu adar yn y man y llidud.
Ni bu wayw a chalon neb ochelud;
Ni bu lewach calon, ni bu lai awch cilud;
Ni bu gawr a safn wyneb y gaer y safud;
Ni bu'n oes y cewri un byw nas curud,
Neu belydr nas arhoest ni bu leidr nas rhestud;
Ni bu leisiau gloywon na blisiau a glowud;
Ni bu o'r oes hon wynebwr well ei sud;
Ni bu'r gwr a wnelai er bwrw'r gwyr a wnelud;
Ni bu i'n oes hyd hyn | un bwa nas tynud (1);
Ni bu wr a fwriai'r un bar a arferud;
Ni bu hen Syr Hywel na neb nas arhoud;
Ni bu wn er teir oes, ni bu wayw nas torrud.

VII

HUPUNT HIR (v. *cadwyn fyrr*).

IOLO GOCH (p. 530-534).

Crist audi nos,
Craton Kyrios,
Rag (2) ymaros | ryw gamwryeu;

(1) Texte : *yd yn hyn*, faux; une syllabe de trop : *hyd hyn* = *hyt yn* et rime avec **tynud**.

(2) Ecrit *rac*, de même *rac angeu*.

Agnus, leo
Alpha et o
Deus homo | dioes ameu;
Rex redemptor
Reit ytt hepkor
Iawn ryw gyngor ynn rag angeu.
Ef ny ehet
Ef ny anet,
Ef ny welet | yn iawn oleu.
Ar for na thir
Ef ni welir
Ef yn ddyir | ef yn ddieu.
Ef yw'r dial
Am yr aval
Un anwadal | y annwydeu.
Ef yn uchel,
Ef yn dawel
Ef yn issel | ef yn asseu.
Ef oe awydd
Yn gyfarwydd,
Ef yn ebrwydd | ny vyn obreu.
Yn bwhwman
Yn dra buan
Draw ag yman | drwy y gameu.
Ef ny bydd hyn
Yn y vlwyddyn
Ny wybydd ddyn | ef ny bydd ieu.
Ac ef a grynn
Ac ef ni rynn
Ac ef a dynn | ac ef a deu.
Nyt llesc lle del
Nys llysc uvel (1)
Nys lludd oervel | nys lladd arveu.

(1) Texte : *envel*, var, *euvel*.

Nys beidd llwfyr,
Nys ery dilwfyr
Nys bawdd cleuddwvyr | nys beidd cleddeu.
Nys ret yn dwys,
Nys gorffowys
Nys daw kynnwys | nys dwc heinyeu.
Nyt marw nyt byw,
Nys gwnn beth yw;
Dyn nys erglyw | dan eis oergleu.
Nys gwlych kawat,
Nys gwyl llygat,
Yn gwir iawn dat | an gwarendeu,
Gwir vrenhin nef
Yr dy dangnef
Yr dy oddef | yr dioddeu;
Yr dy loessyon
Yr dynyadon
Yr dy goron | wrda goreu;
Yr dy gystudd,
Yr dy gythrudd
Ieith loewrudd | a'tholuryeu (1).
Yr dy unpryt
Yr pobyl y byt
Yr dy benyt | yr dy boeneu;
Yr dy gynneddyf
Ar dengeir deddyf,
Wr diweirgreddyf | yr dy wir greu;
Yr dy seint oll,
Yr dy archoll,
Yr dy vronnholl | yr dy ureinheu;
Yr dy goddet
A'th vronn waetlet,
Wr diweirgret | yr dy wir greu;

(1) Pour *a'th ddoluriau* (fréquent).

Yr dy bryder
Ar dduw gwener
A'th wiw leuver | a'th welieu;
Yr dy ganmawl
Vrenhin nefawl
Athro gwrawl | a'th ragoreu;
Moes ym deall
Y wrthladd ball,
Ior diweirgall | yr dy wir greu.
Hynn a vynnaf
Hynn a gaffaf,
Hynn a geissyaf | hoew negesseu;
Nawdd y wirgroes
A nawdd Itloes
A roi ym oes | mi a'r rei meu (1);
Nawdd Maria
A nawdd Anna
A seint Assa | a santesseu;
Nawdd seint Enlli,
A nawdd Kybi,
A nawdd Dewi | Nudd y Deheu;
A nawdd Ieuan
A nawdd Katuan
A nawdd Sanan | Nudd y Seinyeu;
Nawdd Mihangel
A nawdd Gabriel
A nawdd Uriel | y nawdd oreu;
Nawdd seint y byt
Ym kymhlegyt
Y ymoglyt | rac y magleu.

(1) A corriger probablement en : *a roi ym moes y'm a'r rhei meu*; var. a *rhoi ym moes un a'r rhai mau.*

VIII

CLOGYRNACH.

GUTTYN OWAIN (*Gorch.*, p. 202)

Aur fynychle yw'r fynachlog
A'i chor sy well na Chaer Sallog,
A drud dorriadau,
Y dail ar delwau
A lleisiau lliosog.

Adeiliadaist, Dduw dyledog
A theg crysau i'w thai croesog (1),
A brynodd brenin
Cywaethog ei win
Ail ei sin neu bowls enwog.

Aur ty Iesu a'r tywysog,
A gyfrennir yn gyfrannog ;
Y gwaith maîn a'r gwydd,
Yr â a llys rhydd,
Os Dafydd sydd swyddog.

O foliannau nef fal Enog,
Y pwysai fydr Powys fadog :
O eiliad Iolo,
Ar fawl y gwyr fo
Weddîo'n addefog.

(1) Theg crysau = *thecrysau.*

Ei dy addas glân diddos glôg,
A'i nenn gywraint a wnai'n gaerog;
Yr haul yn y rhiw,
A'i adail ydyw
A gwynn lliw fal gwenn llôg.

Oes rhyw faenwaith îs Rhyfoniog,
A'i wenllys hoyw win llysieuog?
A'r byd o'r bwydau,
A gair o'r gorau,
A geiriau trugarog.

O bedwar cwrs yw bwydau'r côg,
A'n gwirodydd o win gwridog;
Ei lynn fal ynyd,
I bob rhai, bob pryd (1)
Oedd hefyd fedd hafog.

Arglwydd grasol, gwleddau gwresog,
A gar dynion yw'r gwr doniog;
Y Gwr i'w garu
A roes yr Iesu
I'w adu'n hir oediog.

WILLIAM LLYN (p. 263).

Lle'r wyd beunydd lliw'r ôd banon
Llyma rinwedd llu morwynion
Llawenydd llannerch,
Llyna sain llawn serch,
Llerch annerch | llwch hinon.

(1) Prononcez *I boprhai, bopryd.*

IX

TAWDDGYRCH CADWYNOG.

LEWIS GLYN COTHI (p. 135).

Sirig arian sy ragorau
I'r sant gorau o'r saint geirwir;
Sel a tharian sy lwyth orau,
A sias voreu i Sais a vwrir;
Sarf gwirodau,
Saiv ddevodau,
Sy ammodau ni symudir;
Sant aelodau
Sul y blodau
Sydd aelodau swydd Elidir.

Tiriawg ydoedd, tarw i gadau,
Tyr vwriadau trwy ei vrodir;
Tarian bydoed, twrn heb wadau,
Teg ei radau, hwynt a gredir;
Tad caredig,
Tai rhwymedig,
Tervynedig, trev a nodir;
Teyrn gweledig,
Tref gadwedig,
Twr cauedig, traw y cedwir.

Miragl solas, mawrglos Eli (1),
Mab i Veli'n mhawb a volir;

(1) C'est ainsi que la strophe est scandée dans l'original. L'autre scansion est la plus usitée.

Mur Nicolas, yn marn Celi
Yn mor heli lle'n rheolir (1);
Mab darogan, mwy'r annogan,
Yw Mynogan o manegir;
Mab Llellogan (2), medd dysgogan,
Mur diogan, mawr y dygir.

Gwirdda adain (3),
Gair a dd'wedai,
Ag (4) a redai dros pob grodir;
Gwr goradain,
Gwir a gredai,
Gwir a dd'wedai, garw y ddeudir;
Gwin drwy'r Veri,
Glyn Mieri
Gwyr i beri'r gwyr a burir;
Gwên Eleri,
Gwlad Pryderi,
Yw gwraidd deri, gwrdd o dirir.

Diriai Liwlad, blaid i'r lili,
Ei dwr Fili, draw o faelir;
Dar y wiwwlad, a drwy Wili
Aed aur Ili, ev a dreulir
Dôr meddiannus,
O Yscanus,
Da moliannus, od ymlynir
Du meddiannus,
Un llwyddiannus,
Du oedrannus, nis didrainir.

(1) Texte : *lle i'n rheolir*, ce qui donne une syllabe de trop.
(2) Probablement *Llallogan* (texte : *lle llogan*).
(3) On peut encore scander ainsi.
(4) Texte : *ac*.

I'r hael yn rhwydd (1),
Y rhol yn rhydd,
A sel y sydd i'r sawl sy wir;
Er Sais drwy swydd,
Er sias dros wydd,
Ei swydd y sydd | dros wydd | y Sir;
Un iarll ni wnai
Yn ol a wnai;
Y dyn nid âi | na'i dai | na'i dir;
Aed Iarll i'w dai
Am ael mis mai,
Y gwin a gai | ag (2) iawn a gwir.

DAFYDD AB EDMWND (*Gorch.*, p. 104).

Urddas Beli wrddais bolion
O urddolion awr ddialedd,
Ar draws beli, aer drosolion,
A thraws holion aeth Rhys hywledd
Iawn ei huriaw
Wrth ddoluriaw
A'i lân duriaw | alon diredd
Wedi curiaw
A doluriaw
Aerau dduriaw | o'i wir ddewredd.

GUTTYN OWAIN (*Gorch.*, p. 189).

A Duw ddwyfol od addefais
Arno llefais, orn a llifiad;
A mi'n nwyfol ym anefais,
Aml a gefais fal mel gafad;

(1) Ici, pure strophe de *hupunt hir*.
(2) Texte : *ac*.

Iawn im ganu
Am gusanu
A'th ddiddanu | oth adduniad
Er fy ngwanu
A'm goganu
Ag amcanu | drwg ym cennad.

X

CYHYDEDD HIR.

DAFYDD AB GWYLIM (p. 349).

Trugarog frenhin
Wyt Tri cyffredin
Ac un cyntefin | Dewin diwad!
Ateb a draethaf,
Atat y trosaf,
Iti cyffesaf | naf nefolwlad!
Ac i Fair addef
Tangnefedd dangnef
Ac i holl saint nef | nifer difrad,
A'm holl fyfyrdawd
A'm holl hyawdlwawd
Ac a'm holl geudawd | barawd bwriad.
Canys gwn yn wir
Mewn byd anghywir
Ynghyflwr anwir | , dihir dehad,
Fy mod yn awdur,
Fy nuw benadur
Yn fawr bechadur | o natur nad,
O air anniwyd
A meddwl dybryd,

A gweithred hefyd | i gyd a gad
Cenfigen, balchder,
Rhyfyg creulonder,
Gwenwyn tra digter | fy ner neirthiad
Cybyddiaeth trais, twyll
Cynghorddyn crybwyll,
Chwant rhithiau amhwyll | cymwyll drychiad;
Camgerdded, ceisio
Goganu, tybio,
Meddylio yno | tro trwy fwriad;
Clod orwag wawdwl,
Cenfigenu'n bwl,
A chelu'r meddwl | fwgwl fagiad;
Meddwdod diwyneb
Methiant glythineb,
Godineb, cudeb | cadarn-ledrad;
Traha, camfalchedd,
Diogi, llesgedd,
Maswedd aniawnwedd | moes anynad;
Coelio breuddwydion.
A chyfareddion,
Rhuddo gwaed gwirion | anudon nad;
Gorwag feddyliau
Cellweirus gredau,
Oferion lyfau | geiriau girad
Gweithio gwaith diau,
Gwadu gorchmynau,
Gwyliau a suliau | , gwael y seiliad;
Cymryd dros gynghor.
Bwyd anmhryd ragor,
Mifiliau cytgor, | por perffeithiad;
Dirmygu heb dawl,
O chwant corphorawl,
Gwasanaeth dwyfawl | Duw deddfawl-dad;
Bod yn aflawen,

Goganu'n absen
Sarhau meibion llên | o'r hen raddiad;
Gosteg anghymwys
Ym mhlas yr eglwys,
Bod yn anghyfrwys | ddwys ddeisyfiad;
Tori gorchmynau
Ac iawn gyneddfau.
A gair diammau | Duw diymwad;
Hyny, Duw, y sydd
Rhag dirfawr gerydd
Edifar beunydd, | llywydd llead!

Iolo Goch (p. 470-483).

Même système que chez Dafydd ab Gwilym : de grandes ressemblances de texte, souvent mêmes expressions.

Deio ab Ieuan Du (*Gorch.*, p. 168).

Nî welais i lys
A dwy a degllys
Ni welais i lys | mor lwys ednig.
Y Llys a hoffaf
Er lles i'w phennaf,
Nid llaes i molaf | mal Celliwig
Yn llwyr degwch nef,
Yn llawr Bachelldref,
Yn lle bydd dolef | bob nadolig;
A darllain llyfrau,
Llin brenhinllwythau
A chanmawl achau | ucheledig;
A gwybod teiriaith,
A chlawr y gyfraith

A grwndwal pob iaith | yn weithredig ;
Ag amlder bwydau,
Melys gwyrdebau,
A thrymmion seigiau | wiw suwgredig ;
A chynnal priflys,
I'r holl ynys
Ysbys nad tybys | un lle tebyg ;
A llys cyfanedd,
O barch a mawredd
A rhywiog fonedd | diagwedd dig ;
A phorthi breisgfeirch
Ar wair a brasgeirch.
Dofi ebolfeirch | meirch mynyddig ;
A milgwn hirion,
Cipiaid gafaelion,
Huaid trwyn fyrrion | cigyddion cig ;
A thrydar paunod,
A grwn c'lomennod,
A gwg alarchod | eleirchedig,
A descant adar
Tradoeth eu trydar
A gwiw iaith lafar | tra afar trig ;
A llu o geraint,
A llynn tra meddwaint
A llawenhau braint | bro hil Feurig ;
A lliwgoch baladr,
Gan lin Cadwaladr,
A llafngwaed rhaiadr | coelfeingadr cig ;
A llif gwirodau,
A llef gann dannau,
A llafar gerddau | gorddwfnedig ;
A llawen crythawr,
A llawer cerddawr,
A llawenydd mawr | uwch llawr llithrig ;
A thrydar meibion,

A thro cerddorion,
A thrabludd **gweision** | gosymddeithig;
A thrallod cegin,
A thrulliaid trablin
A thri lliw ar **win** | i **wan** blysig;
Tair cynnydd y sydd,
Tirion lawenydd,
Ar bryflys **Dafydd** | ,difefl ryfyg :
Newydd o fwydydd,
Henaidd ddiodydd,
Croesaw hir **beunydd**, | cwrs **arbennig**.
Pa ddyn bynnag fych,
Pa gerdd a fedrych,
Gyd ag a **nodych** | yn enwedig;
Tyred pan fynnych,
Croesaw pan ddelych,
A chwedi **delych** | tra fynnych trig.

LEWIS GLYN COTHI (p. 29).

Nid gwaeth ar draethen,
Tai Nudd Whitnai wen,
No thai elusen | a wnaeth **Lasar**;
Nid ynt waeth ill dau,
Am win i minnau,
No blodau'r **Deau** | drwy holl daiar.
Rhwyddach eu rhoddion,
O law hwn val hon,
No dwr yr **avon** | i'r **gwirion gwar**;
Teg oedd anrhegu
Aur i Vair a vu
I weled **Iesu** | o Valdassar;
O'u mwn aur a'u medd,
O'u da ill deuwedd,
O'u gwledd ni'm **gomedd** | y ddau **gymmhar**;

Rhent o'u tir hwyntau
A gawn, a gynau.
Amryval lysiau | bwydau ar bâr.

XI

ENGLYN UNODL UNION.

DAFYDD AB GWILYM (p. 7).

Da rhed ar wared | arw oror — olwyn
Neu'r wylan ar rydfor
Deuwell y rhed, buddged bor,
Diwyd wyf, dy wawd, Ifor.

Os da plethîad mâd | ym mor — o hirwlych
Am herwlong raff angor ;
Gwell y plethaf, ddewraf ddor,
Gwawd y tafawd yt Ifor.

Ni thyf caen Llenmaen, | llanw mor — rhyferthwy,
Rhwyf Arthur, neu Hector ;
Mygr ateb ddihareb ddor
Mal y tyf mawl yt, Ifor.

Cyfyd yt hawddfyd, | f'addien bor — genyf,
Ag anwyl hawddamor ;
Cad ddychryn darf ddur arf ddor
Cedyrn ofn cadarn Ifor.

IOLO GOCH (p. 663).

Coffa ben a llen a llywenig — lys
A las nos Nadolig ;

Coffa golwyth Amwythig
O dan a neidiodd naid dig.

I Riccard uch Olwin arglwydd Dinas Reidin.

Ni chiliodd Richard | uch Olwin — eurglod
Arglwydd Dînas Reiddin
Vylchiwr câd vaeddiad vyddin
Erioed led i droed o'r drîn.

Page 665. — *Englyn ar Feddfaen D. ab G. ym mynwent Tal-y-Llycheu.*

Hardd lasnen ywen | llwyn Eos — Dyfi
Mae Dafydd i'th agos ;
Mae'n y pridd y gerdd ddiddos
Diddawn yw pob dydd a nos.

Dafydd ab Edmwnd (*Gorch.*, p. 102).

Clawr Gwynedd glas gledd | glos glan glwys — wewyr
Glod eryr gloyw ei darian ;
Gwrdd yw Rhys, garw ddur hosan,
Gwres mynych les, Mon achlân.

Llaw wir, Ion heudir | yw'n hydab — osgordd
Ymhob ffordd botffordd bab ;
O'i rwydd-don a roe rydd-dab,
I'w roi yn fudd, er yn fab.

Dans le premier englyn, le mot *achlân* n'est pas en contradiction avec la loi de l'accent : *hósan* a l'accent sur la pénultième ; *achlân*, sur la dernière.

DAFYDD NANMOR à RHYS O'R TYWYN (*Gorch.*, p. 150).

Anhawdd bod hebod | uwch ynys — dywyn
Deau, Gwynedd, Powys ;
Y mae'n oll mewn ewyllys
Yn dri llu yn dy dair llys.

Llys i'r holl ynys | yn rhoi llynn — ag aur
Ag arian a berthyn ;
Lletty ieirll o bob lle tynn
Llu daear oll i Dywyn.

GUTTYN OWAIN (*Ibid.*, p. 200).

Oediog fo'r enwog o fronnydd — y Groes
Mewn gras a llawenydd ;
Oedran addaf ar Ddafydd,
Y rhoer, y fwyalch a'r hydd.

TUDUR ALED (*Ceinion*, I, p. 347).

Syr Bwn nerth dragwn | wrth drangc — y deyrnas
Dyrnod syr Rhys ieuangc ;
Sarff cryf syr waew Ffwg crafangc,
Syr Rhys ffraw ar asau Ffrangc.

Cyrch Ffraingc i'w thalfaingc | wrth wys — neu farddas
A wnai Fyrddin Emrys ;
Ag enw groeg yn y gwregys,
Yn amser An am syr Rhys.

LEWIS GLYN COTHI (p. 44).

Olau dy leiviau | val dail îr — ar wydd
Arweddiad byth yn hir;
Olau dy veirch a welir
Hyd yr aeth oll dwr a thir.

Dwr yn wir a thir | i'th ol, — a nadredd,
Y neidr o Gaer Lincol;
Ni thrig y rhai dig ar d'ol
Na'th gonyn tu a'th ganol.

Canol llu breiniol, | barwniaid — drichant
Dyrchaiv groes vendigaid
Cenyd o radd cawn dy raid,
Veirch a gwyr varchawg euraid.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 273).

Bon gwreiddiau Nannau | uwch naint — a brynniau
Breinied Duw a'r hollsaint;
Beth i'r brig, byth a yrr braint?
Bodhyn a byw at henaint.

At henaint oed saint | dan sel — goreuffawd
Aed Gruffydd ap Hywel;
A dringed y dewr angel
A gras Duw ymhob gris dêl.

Reprises de *at henaint;* de même, dans les strophes qui suivent.

ENGLYN CRWCCA.

Mêmes lois.

XII

TODDAID.

DAFYDD AB GWILYM (p. 8).

Ner byd, wryd bedeir | oror — giwdawd
A naf olygawd nef oleugor,
Neirthiad fo efo | ar for — a llawr llen
Nen y ffurfafen i ffurf Ifor !

Newidiwr trwsiwr | trysor — y moliant,
Normant glud goddiant glod egwyddor ;
Naddiad arf oergad | deirf eurgor — Eingl giawdd,
Nawdd mur a rwyfawdd Mair ar Ifor.

Toutes les strophes ont quatre vers : chaque vers de la strophe commence par la même consonne, excepté au deuxième vers de la première strophe. Dans la deuxième strophe, le troisième vers commence par *a*, qui ne compte pas, étant enclitique ; la consonne suivante est *n*, qui commence tous les vers de la strophe.

Page 324. Même système, avec plus de variété à l'initiale. Généralement, au premier vers, on a plus souvent la *cynghanedd* vocalique.

LEWIS GLYN COTHI (p. 46).

Pan ddelon' veilchion i vylchau — lle y bych
Edrych a'u gwelych yn lle golau ;
Ymogel, angel ! | rhag angau — trwy dwyll,
Gwell pwyll nog amhwyll ar ryw gamau.

SION TUDYR (*Ceinion*, II, p. 103-104).

Angheuol yw'r byd, | anghywir — yw'r daith
Y gau lawer gwaith a gâ le'r gwir.
Gwyr yr eglwys lwys | a lysir — am chwant,
Ariant a gadwant ag a'u gwedir.
Bugeiliaid deilliaid a dwyllir — rhoddion
Angylion, person tyn y pyrsir ;
A'r bugail di sail dwys holir — am hyn,
Y Cnu a ofyn ac a'i cneifir.
Fe a'r blaidd truanaidd | at'r wyn — i geubant.

DAFYDD NANMOR (*Gorch.*, p. 154).

Mab Rhys aeth o'i lys | i lawr — yr Erwlg,
Mewn gro a cherrig mae'n garcharawr ;
P'an aeth, gwrolaeth | ar elawr — o'r llys
Bu bobl ei ynys heb eu blaenawr.
Aeth braw am guddiaw | egwyddawr — pobloedd
A dagrau miloedd hyd gwrr Maelawr ;
Aml rhyngom och drom, | dramawr — o noddef
A gwae a dolêf, gyd a'i elawr.

XIII

GWAWDODYN BYRR.

IOLO GOCH (p. 269).

Da iawn fu Fordaf naf nifeiriawg;
Da fu Nudd o fudd wrth anfoddawg;
Da fu Run ei hun | fu heniawg — o serch;
Da fu Rydderch gwr ardderchawg;

Os rhaid manegi pwy rhi yrhawg :
Dafydd ap Bleddyn yw'r dyn doniawg,
Gwr perffaith iawn waith | enwawg — sancteidd bryd,
Gwr o lwyth Uchdryd, nid bryd Branawg (1).

DAFYDD AB GWILYM (p. 320-321).

Ni chân fy nhafawd wawd wenieithaidd,
Ni chair llinodr wr yn ochr lluniaidd,
Ni chel i Hywel | loyw garuaidd — lwybr,
O bu'r ddawn ewybr barddoniaidd
Neirthiad a gefais didrais dwy draidd,
Ni'm gâd gan ruad gad gymroaidd,
Nis erfyn o brudd | ac nis arfaidd — draw
Naw o praw lidiaw, ner preladaidd.

DAFYDD NANMOR (*Gorch.*, p. 151).

Oesed yr unduw y sy Drindod
Yt gyd oesi a'th wraig brïod;

(1) A corriger en *bradawg*.

O'ch meibion o hon | cewch hynod — wyrion
A mil orwyrion mal eryrod.
Anos, ddydd a nôs, wrth ymosod
Yw taro wrthych, na'r twrr arthod ;
Ofer dann faner | i fynnod — gwladoedd
Ymwasg a lluoedd ymysg llewod.

TUDUR ALED (*Ceinion*, I, p. 348).

Ni phery onen yn ei pheirianau
Dan d'ewin ddyrnod ond yn ddarnau ;
Ewinawg osawg | asau — braich a bron
A nyddai linon yn ddolenau.

LEWIS GLYN COTHI (p. 34).

Lle y rhoddo'r gwalch balch vlaen ei big
Y ffy'r adar yn gyffroedig ;
Ein hebog nid oedd | annhebyg — benrhaith (1)
Hwn nid â ymaith o'i hen dymhig.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 268-269).

Awn ar frys i'th lys a'th ddilyswch
Mal yr â o'r glynn gwenyn i gwch ;
Chwithau gwrdd gorau | gerdd garwch — trwyadl
Gyda chywirddadl a gyd chwerddwch.

(1) La coupe dans le vers à *toddaid* de dix syllabes est toujours à la cinquième syllabe comme nous l'avons vu. Quand elle n'y est pas, on peut conclure à une faute. Ainsi pour ce vers de Daf. Nanmor, *Gorch.*, p. 152 :

Nid un dadau yn iau, | wr nod a mannau

est à corriger en :

Nid un dadau'n iau | wr nod a mannau.

XIV

GWAWDODYN HIR.

IOLO GOCH (p. 274).

Gwr dwyfawl i **hawl** hwyl anlufoddawg (1)
Gwr celfydd dedwydd a godidawg
Gwr atto meir gair gorfodawg
Gwr iawn hoiw radlawn 'n hirhoedlawg
Gwr hyborth i **borth** | aberthawg — gwisga
Gwrda'n lle Assaf iawn lluosawg.

DAFYDD AB EDMWNT (*Gorch.*, p. 107).

(Cité par J.-D. Rhys.)

DEIO AB IEUAN DU (*Gorch*, p. 172).

Meredudd ddeurudd y cerddorion,
Arno, gwyl Iago mae golygon;
Gwirod taladwy a gae'r tlodion,
Gwîn, osai a fydd gann ei weision,
Gwin o Gaerfyrddin | i feirddion — a chlêr
Gwedi ir haedder gydâ rhoddion.

TUDUR ALED (*Ceinion*, I, p. 339).

Llawen yw cedeirn llawn hoccediaeth;
O'i rym y dygent rwymedigaeth;

(1) Barbarisme évident; à corriger en *anlloeddawg*, opulent?

A llawer eraill o herwriaeth,
A gyrchai o'r coed i garchar caeth ;
Yn nghred ni weled | unoliaeth — Gwalchmai
Wr well a fedrai roi llyfodraeth.

SION TUDYR (*Ceinion*, II, p. 211).

Poen oer i filiwn pan ryfelodd,
Poen uffern agos pan ffyrnigodd ;
Poen aml iddynt oedd pan ymladdodd,
Poen o'i ddwrn wedi pan ddyrnodiodd ;
Daear yn gynar | pan gwnnodd — ddyrnod
Ag e'n ei arfod pan gynhyrfodd.

LEWIS GLYN COTHI (p. 49).

Y gwr gwinau sy gar i Gynog
A goreu ydyw o Garadog,
Aed ar uchelwaed a'i dri cheiliog
A'i dair neidr rhiv drwy weundir havog,
A'i darian lydan | ddyledog — drevtad,
A'i dai o'r winwlad hyd ar Wenlog (1).

XV

BYRR A THODDAID.

LEWIS GLYN COTHI (p. 324).

Nodded sant Bened beunydd — o'i dymhor
Wyr Domas ab Davydd,

(1) Souvent, chez ce poéte, il n'y a pas de *cynghanedd* vocalique au vers à *toddaid*.

E wna ovn i un anuvydd,
Ni wna e ovn i un uvydd;
Nid ovna ev bedwar devnydd
Nes yw in ddwyn y nos yn ddydd;
Ni ddarvu ei aur, ni ddervydd — ei air
Wyr Elystan glodrydd.

Dans les autres strophes, *allitération* ou *rime* avec le dernier *toddaid* :

Vo
Ev
Agos
Llan Egwad
Ev
Ivor.

XVI

HIR A THODDAID.

DAFYDD AB EDMWNT (*Gorch.*, p. 121-123).

Gwenn a wyr gwybod gain eiry gobant,
Gallu o'r nefoedd golli aur nwyfiant
Gwiw dyry giried, gêd aur ag ariant,
Glauar hardd eneth glir ei harddauniant.
Gwnn dew ddatganu | gann dant — goleuber
Gwas wyf a maeler, gwiw saif ei moliant.

Gwawdwyr i geinwen gwawd wir a ganant
Gair oedd o degwch gwir iddi dygant

Gwnn fod teuluwyr gwynfyd diliwiant (1)
Gwynedd i'w moli gwnn iddi maelant
Gorau i minnau | **gwîr o mynnant — gwnâf** (2)
Ganu i'r deccaf gwenna o'r deucant.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 268).

Pob llid arferoedd, pob lleidr a fwriwch,
Pob cywir gariad, pob car a gerwch,
Pob bardd diogan, pob rhodd o degwch (3),
Pob moliant, pob can a phob diddanwch,
Pob mawredd, rhinwedd, | **lle rhennwch — win per**
Pob hoyw a freuder mewn pob hyfrydwch (4).

(Cf. TUDUR ALED, *Ceinion*, I, p. 347).

XVII

ENGLYN UNODL GYRCH.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 259).

Gywired byth mae'n gryd bâr,
Gair o'th fynwes gwyrth feinwar ;

(1) Prononcez *foteuluwyr : -fytiliwiant.*

(2) Plus bas, au cinquième vers, le *gair toddaid* (expression exométrique) allitère avec le deuxième membre du vers où il se trouve :

Gwiri*au* cas **dyddiau** | **cys*t*udd — calon.**

(3) Prononcez *popardd ; pop rhodd ;* cf. vers 2, *Pop cywirr : pop car.*

(4) Prononcez *pop hoyw : pop hyfrydwch.*

Gwrando deg air unduw doeth,
Gwenn iaith goeth, y gwann a'th gar.

XVIII

AWDLGYWYDD OU CYWYDD ODLIAIDD.


WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 260).

A'th liw calch ar dy falch fodd
A brifiodd fal berw afon ;
Bun olau ba na welid?
Brad oeddid i brydyddion.

RHYS NANMOR (Prys, *Hanes*, p. 198).

Yn arglwydd Rhismwnt Ior bwnt y rhedd
Yn arglwydd Swmrsed a gred i'r grog
Yn farchog urddol y detholwn
Yn eurlliw i wn yn iarll enwog.
Yn ddug i weled, newydd goler,
Inni dewiser (1) yn dywysog
Ag yn frenin gorllewin llywi'awdr
Ag yn ymerawdr y gwna mwrog.

(1) *Ddewisir.*



CHAPITRE IV.

LES DIVERS SYSTÈMES DANS LE MÊME POÈME.

§ 1er. — *La variété des strophes dans le poème chez les auteurs.*

Les Gallois donnent généralement le nom d'*awdl* au poème à strophes variées. Cette variété est plus ou moins grande chez les auteurs. Je donne, pour plus de clarté, la succession des strophes dans le même poème chez les auteurs les mieux connus des quinzième-seizième siècles (Iolo Goch, p. 354-356).

IOLO GOCH (p. 354-356).

Gwawdodyn byrr (sept strophes).
Gwawdodyn hir.

DAFYDD AB GWILYM (p. 320-321).

Englyn unodl unsain.
Gwawdodyn byrr (huit strophes).

Du même (p. 326-330).

Englyn unodl unsain (dix strophes).
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain (quatre strophes).
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain (six strophes).
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain (onze strophes).

DAFYDD AB EDMWND (*Gorch.*, p. 107).

Englyn unodl unsain.
Englyn prost cadwynog.
Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain.
Gwawdodyn hir.

GUTTYN OWAIN (*Gorch*, p. 200).

Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain.
Englyn prost cadwynog.

Englyn unodl unsain.
Clogyrnach (huit strophes).

(Page 188, même disposition ; mais *six* strophes de *tawddgyrch cadwynog*).

Tudur Aled (*Ceinion*, I, p. 338-340).

Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidog.
Englyn unodl unsain (trois strophes).
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain (deux strophes).
Un *pennill* de *cywydd deuair hirion.*
Un *englyn unodl unsain.*
Gwawdodyn hir.
Gwawdodyn byrr.
Gwawdodyn hir.
Cyhydedd nawbann.
Strophe type *toddaid.*

Sion Tudur (*Ceinion*, II, p. 210-211).

Englyn unodl unsain (neuf strophes).
Hir a thoddaid (six strophes).
Gwawdodyn hir.
Hir a thoddaid (quatre strophes).
Gwawdodyn hir.

LEWIS GLYN COTHI (p. 24-26).

Englyn unodl unsain (cinq strophes).
Toddaid avec *cyhydedd hir*.
Hir a thoddaid.
Toddaid.
Hir a thoddaid..
Cyhydedd hir.
Gwawdodyn byrr.
Englyn unodl unsain.

Du même (p. 29-30).

Englyn unodl unsain (deux strophes).
Englyn prost cyfnewidiog.
Cyhydedd nawbann (huit strophes de même rime).
Englyn unodl unsain.
Cyhydedd hir (huit strophes).
Englyn unodl unsain.

Du même (p. 44-46).

Englyn unodl unsain (huit strophes).
Toddaid (trois strophes de quatre vers).
Gwawdodyn byrr.
Hir a thoddaid.
Englyn unodl unsain.

Du même (p. 58-64).

Englyn unodl unsain (trois strophes).
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain (quatre strophes).
Gwawdodyn byrr (neuf strophes : rime en *-ar*).
Cyhydedd nawbann (quinze strophes en *prost cyfnewidiog*).

Du même (p. 97-99).

Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidiog.
Cyhydedd nawbann.
Gwawdodyn byrr.
Cyhydedd nawbann.
Gwawdodyn byrr.
Cyhydedd nawbann.
Gwawdodyn byrr.
Cyhydedd nawbann.
Gwawdodyn byrr (trois strophes).
Toutes les rimes sont en *-aidd*.

William Llyn (*Gorch*., p. 25).

Englyn unodl unsain (huit strophes).
Englyn prost cyfnewidiog.

Englyn unodl unsain.
Cyhydedd hir (trois strophes).
Toddaid.
Hir a thoddaid (deux strophes).
Gwawdodyn hir.
Gwawdodyn byrr (quatre strophes).

DAFYDD NANMOR (*Ceinion*, I, p. 161).

Englyn unodl unsain (six strophes).
Gwawdodyn byrr.
Série de *gwawdodyn hir.*

§ 2. — *Exemples.*

Je prends comme exemple un poème de Tudur Aled et un autre de Lewis Glyn Cothi, les deux poètes de cette époque qui montrent le plus de variété dans l'usage ou la combinaison des types de strophes.

TUDUR ALED (*Ceinion*, I, p. 338).

Awdl farwnad Thomas Salsbury, Marchog urddol.

Englyn unodl unsain (1).
Gwae holl Gred, trymed | tromwedd — am erchwyn
Y marchog o'r Gogledd,
Cloi'r bwrdd a'r clai ar y bedd,
Cau Lleweni, cell Wynedd !

(1) Les indications de strophes sont de moi.

Prost cyfnewidiog.

Gwynedd am ein gwledd mae'n gloff;
Marw llew'r prince mae'r lloer heb priff;
Marw'n pen a'n cadben a'n cyff;
Marw Salbri ym a'r sel braff.

Englyn unodl unsain.

Marw syr Thomas | mae oerion — fronau
Am frenin marchogion;
Marw iachoedd mawr Marchudd Môn,
Marw edryd ymerodron.

Prost cyfnewidiog.

Os marw ef, Iesu! mae'r wyd,
Yn llwyn o ynnill ei waed;
Mae o'r un cyff mawr o'n coed,
Yn wydd iefainc ymddifaid.

Englyn unodl unsain.

Ymddifad o'r tad | yw'r tir — a'r cestyll
Rhag gostwng (1) y teir sir;
O flodau afalau dir
Impier o'r rhyw emprwr hir,

Englyn unodl unsain.

Emprwr o eryr | Aram — sy egin
Siacop, Isaac, Abram;
Oes merch, arglwyddes hi mam;
Oes meibion, dynion dinam.

Englyn unodl unsain.

Tad, brodyr, neiaint, | plant aeth mewn hiraeth — a [cheraint (2),
Chwiorydd i'm penaeth;
Cwyn am ei ddwyn i'm oedd waeth,
Cwyno adladd cenedlaeth.

(1) Prononcez *rhacostwng*.
(2) Ce vers a trois syllabes de trop.

Prost cyfnewidiog.

Bu adladd 'n awr radd o'i nerth
Bu ddwr Noe yn boddi'r north :
Ba ryw swn? a'i wybr a syrth?
Bu ddiaspad heb ddosparth.

Englyn unodl unsain.

Diaspad gwaeddiad dygwyddaw — tyrau
A'r carteri yn syrthiaw;
Daiar oedd yn diwreiddiaw
Dan ebwch drom Dinbech draw.

Englyn unodl cyrch.

Draw yr aeth dirwy ar wyth win,
Darfu oeri'r dorf werin;
Darfu pen y dref a'i post,
Darfu'r gost ar fara gwin.

Cywydd d. hirion.

Darfu'n diarfu, Deo, ir-fyw!
Darfu am barch dra fo'm byw;

Englyn unodl unsain.

Dra fo'm byw, deryw | dwyrain — a gogledd
Diryfedd hyd Rhufain,
Doe'n dirwywyd yn druain :
Dinbech drist dan y baîch draîn.

Englyn unodl unsain.

Ar ddrain ac ar fain | er f'anwyl — yr wyf :
I ba le yr af uchelwyl?
Dydd oer ydoedd ei arwyl,
Dydd Ystwyll gwin distill gwyl.

